



## **Deg o Awgrymiadau Gwych ar gyfer Llunio Adroddiad Diogelu Oedolion**

**Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond ar gyfer hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch amheuon o gam-drin neu esgeuluso oedolyn mewn perygl. Os dymunwch chi hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol o ryw wybodaeth arall, neu wneud cais am wasanaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol briodol.**

**Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosib yn yr adroddiad. Os na fyddwch yn adrodd holl hanes yr hyn sydd wedi digwydd, gall fod oedi yn y broses o ddiogelu'r oedolyn mewn perygl.**

**Dylai'r deg o awgrymiadau canlynol eich helpu i gwblhau'r adroddiad:**

- 1. Cofnodi'r wybodaeth sylfaenol yn gywir.**
  - Enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r oedolyn mewn perygl
  - Cyfeiriad a rhif ffôn
  - Rhyw a tharddiad ethnig yr oedolyn mewn perygl
  - Anghenion gofal a chymorth yr oedolyn mewn perygl.
- 2. Byddwch yn eglur o ran pwy ydych chi, beth yw eich rôl a'ch perthynas i'r sawl sy'n destun yr adroddiad.**
  - **Nodwch leoliad presennol yr oedolyn mewn perygl a pha gamau a gymerwyd i sicrhau diogelwch yr oedolyn hwnnw.**

3. Nodwch ffynhonnell eich tystiolaeth a byddwch yn eglur o ran gwahaniaethu rhwng ffaith a barn.
  - A ddaw'r dystiolaeth o'r nodiadau, profiadau uniongyrchol wrth ymwneud â'r unigolyn, pryderon y mae gweithwyr proffesiynol eraill wedi'u codi, neu wybodaeth a ddarparwyd gan rywun arall? Gall fod yn gyfuniad o bob un o'r rhain.
  - Dyfynnwch yr union eiriau y mae'r oedolyn mewn perygl wedi'u dweud wrthyh.
  - Er enghraifft, peidiwch ag ysgrifennu 'Mae'r oedolyn mewn perygl yn dweud fod ei bartner yn ei gam-drin yn gorfforol'; dyfynnwch union eiriau'r oedolyn mewn perygl: "fe wnaeth fy mhartner fy ngwthio i lawr y grisiau ddydd Mawrth diwethaf a fy llusgo ar hyd y llawr gerfydd fy ngwallt."
  
4. Byddwch yn gryno a defnyddiwch frawddegau byrion. Esboniwch unrhyw dermau meddygol a'r hyn y maent yn ei olygu i'r oedolyn mewn perygl, gan ei bod yn bosib na fydd gan y sawl sy'n darllen yr adroddiad unrhyw gefndir meddygol.
  - Er enghraifft, pe byddech chi'n gwneud Atgyfeiriad Diogelu Oedolyn wedi clywed nad fu gofalwyr Richard yn rhoi ei foddion thyroid iddo. Gallech ysgrifennu: 'Mae gan Richard isthyroidedd (chwarren thyroid tanweithredol) ac mae arno angen cymryd y moddion a roddodd y meddyg iddo (Levothyroxin) unwaith y dydd. Os nad yw'n cael ei foddion bob dydd gall fynd yn sâl iawn. Mae gan Richard anabledd dysgu ac mae'n dibynnu ar ei ofalwyr.'
  
5. Disgrifiwch mor fanwl ag y gallwch yr hyn sydd wedi digwydd, gan nodi a oedd unrhyw dystion.

6. Byddwch yn bendant ynglŷn â'r math o gam-drin sydd wedi digwydd yn eich tyb chi.
7. Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch ynglŷn â'r cyflawnwr/wyr.

### **Peidiwch â chysylltu â'r cyflawnwr eich hunan**

8. Meddyliwch a oes rhywun arall mewn perygl hefyd
  - Er enghraifft, plant neu oedolion eraill mewn perygl. Nodwch pwy ydynt.
  - Meddyliwch a oes angen ichi wneud Atgyfeiriad Diogelu Plentyn.
9. Nodwch a yw'r oedolyn mewn perygl yn ymwybodol o'r pryderon o ran diogelu, a'r hyn y mae'r oedolyn mewn perygl yn dymuno iddo ddigwydd.
  - Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid peidio â sôn am eich pryderon wrth yr oedolyn mewn perygl (neu'r teulu/rhywun ag atwrneiaeth os yw'n briodol, mewn achosion lle nad yw'r oedolyn mewn perygl yn meddu ar alluedd). **Cofiwch y dylai Diogelu fod yn broses a weithredir AR Y CYD ag oedolion mewn perygl, ac nid rhywbeth sy'n digwydd iddynt.** Dylid gwneud eithriad i hynny pe byddai sôn am eich pryderon yn rhoi'r unigolyn neu chi eich hun mewn perygl o niwed.
10. Nodwch yn eglur yn eich nodiadau eich hun pa gamau gweithredu a gymerwyd.